| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Dyddiad:** | **28 Mehefin 2017** |
| **Pwnc:** | **Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus – Adroddiad Asesu Allanol a Chynllun Gweithredu** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**01248 752601**<br>**marcjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>**marionpryor@ynysmon.gov.uk** |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â’r Safonau Sector Cyhoeddus, ystyried yr adroddiad a gafwyd yn dilyn yr asesiad allanol o’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan gyn Bennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Sir Ddinbych a Chynllun Gweithredu’r Pennaeth Archwilio a Risg a ddatblygwyd er mwyn ymateb i’r meysydd ar gyfer gwelliant a nodwyd. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi’r angen i’r prif swyddog archwilio ddatblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant sy’n cynnwys yr holl agweddau o weithgareddau archwilio mewnol. Rhaid i’r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant gynnwys asesiadau mewnol ac allanol.

1.2. Mae rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant wedi’i dylunio fel y gellir gwerthuso cydymffurfiaeth y gweithgaredd archwilio mewnol â’r *Safonau* a gwerthusiad i weld a yw’r archwilwyr mewnol yn gweithredu’r *Cod Moeseg*. Mae’r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol ac mae’n adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant.

1.3. Rhaid cynnal yr asesiad o leiaf un waith bob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i’r sefydliad, un ai drwy asesiad allanol llawn neu drwy hunanasesiad wedi’i ddilysu gan adolygwr allanol. Daeth y gofyniad hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi canlyniadau asesiad allanol y gwasanaeth Archwilio Mewnol a bod Cynllun Gweithredu’r Pennaeth Archwilio a Risg yn cael ei ddatblygu er mwyn mynd i’r afael â’r meysydd gwelliant sydd wedi’u hadnabod.

## 3. Gwybodaeth gefndirol

3.1. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) wedi cydweithio er mwyn mabwysiadu ymagwedd adolygiad cymheiriaid tuag at asesiad allanol, gyda hunanasesiadau'n cael eu dilysu gan adolygwr allanol.

3.2. Y fantais allweddol i'r agwedd hon yw'r gost. Mae tystiolaeth a gasglwyd gan WCAG yn dangos bod costau asesiad allanol llawn tua £15k tra byddai asesiad wedi'i ddilysu tua £11k. Yn ychwanegol at hynny, mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r awydd i hyrwyddo trefniadau cydweithio.

3.3. Cefnogwyd y dull hwn gan y Swyddog Adran 151.

3.4. Enwebwyd Cyngor Sir Ddinbych gan WCAG i ymgymryd â'r asesiad allanol o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a gynhaliwyd yn ystod Mawrth 2017.

3.5. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i enwebu i ymgymryd â'r asesiad allanol yng Nghyngor Sir Penfro, sydd wedi'i gytuno ar gyfer Rhagfyr 2017.

## 4. Canlyniadau'r Asesiad Allanol

4.1. Mae adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych wedi'i atodi fel **Atodiad A**. Mae'n cynnwys manylion am y gydymffurfiaeth â'r *Safonau* ac mae'n rhoi sicrwydd bod Cyngor Sir Ynys Môn yn '***Cydymffurfio'n Gyffredinol'*** â'r Safonau, fel y nodir isod:

| Safon | Cydymffurfiaeth |
|---|---|
| Diffiniad o Risg Archwilio | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| Cod Moeseg | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| **Priodoli Safonau** | |
| 1000 Diben, Awdurdod a Chyfrifoldeb | Cydymffurfio'n Rannol |
| 1100 Gwrthrychedd ac Annibyniaeth | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 1200 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyledus | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 1300 Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| **Safonau Perfformiad** | |
| 2000 Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol | Cydymffurfio'n Rannol |
| 2100 Natur y gwaith | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 2200 Cynllunio'r Gwaith | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 2300 Cyflawni'r Gwaith | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 2400 Cyfathrebu'r Canlyniadau | Cydymffurfio'n Rannol |
| 2500 Monitro Cynnydd | Cydymffurfio'n Gyffredinol |
| 2600 Cyfathrebu'r Derbyniad o Risg | Cydymffurfio'n Gyffredinol |

4.2. Cododd yr aseswr allanol saith maes gwelliant i'w hystyried, sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar ddiwedd yr adroddiad.

4.3. Yr hyn sydd fwyaf nodedig yw absenoldeb fframwaith sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod gwaith Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl feysydd, gwasanaethau, rhaglenni, prosiectau a risgiau ac ati corfforaethol yn cael eu hadnabod ac yr asesir y risg archwilio er mwyn hysbysu'r gwaith o gynllunio'r gwaith archwilio mewnol. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymgymryd ag adolygiad llawn o ddulliau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd fframwaith sicrwydd ansawdd yn ei le erbyn 2018 / 19.

4.4. Yn ychwanegol at hynny, er yn cydymffurfio'n llawn â PSIAS ar adeg yr asesiad allanol, roedd cyfrifoldebau ychwanegol y prif swyddog archwilio am reoli risg ac yswiriant, a ddechreuodd 1 Ebrill 2017, yn peryglu cydymffurfiaeth barhaus o ran annibyniaeth a gwrthrychedd y swyddogaeth archwilio. Fodd bynnag, adolygwyd y *Safonau* hefyd, yn weithredol o 1 Ebrill 2017. Safon 1112 - Cafodd Rolau Prif Swyddogion Archwilio y tu hwnt i Archwilio Mewnol eu hadolygu am y tro cyntaf, mae'r *Safonau* yn cydnabod y gall prif swyddogion archwilio gael rolau a chyfrifoldebau heblaw am archwilio mewnol. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn briffio'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn diweddaru'r siartr archwilio mewnol er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd.

4.5. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi asesu effaith y meysydd 'Cydymffurfiaeth Rhannol' ac wedi datblygu camau gweithredu, gydag amserlenni, er mwyn mynd i'r afael â'r rhain a'r meysydd eraill ar gyfer gwelliant a godwyd. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r Swyddog Adran 151 yn cefnogi'r gweithredoedd hyn.

# Asesiad Ansawdd Allanol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Sefydliad: | Cyngor Sir Ynys Môn | | |
| Enw'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol | Gwasanaeth Archwilio Mewnol | | |
| Dyddiad y gwerthusiad archwilio mewnol | Mawrth 2017 | Dyddiad y gwerthusiad diwethaf o'r swyddogaeth archwilio mewnol | Amherthnasol |
| Teitl y Prif Swyddog Archwilio dynodedig: | Pennaeth Archwilio Mewnol<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg | Enw'r Prif Swyddog Archwilio dynodedig: | Mike Halstead (hyd at 31 Mawrth 2017)<br>Marion Pryor (o 1 Ebrill 2017) |
| Enw'r pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion archwilio ac i bwy y mae'r Prif Swyddog Archwilio yn adrodd:<br>(Pan mae'r safonau yn dweud "bwrdd", pwy mae hynny'n ei olygu yn y sefydliad) | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | I bwy mae'r Prif Swyddog Archwilio'n adrodd:<br>(Pan mae'r safonau'n dweud uwch reolwyr, pwy mae hynny'n olygu) | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & Swyddog Adran 151 |
| **Tîm Adolygu:** Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Sir Ddinbych | | | |

**Cydymffurfio'n gyffredinol** – mae'n golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth archwilio mewnol, ynghyd â'r broses o'u defnyddio, yn cydymffurfio gyda gofynion y *Safon* neu'r elfen unigol o'r Côd Moesegol ym mhob agwedd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol gyda'r mwyafrif o *Safonau* neu elfennau'r Côd Moesegol ac o leiaf cydymffurfiaeth rannol gydag eraill o fewn yr adran/categori. Efallai y bydd cyfleon sylweddol i sicrhau gwelliant ond ni ddylai'r rhain adlewyrchu sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r *Safonau* neu'r Côd Moesegol, heb eu defnyddio'n effeithiol neu heb gyflawni'r amcanion a ddatganwyd ganddynt. Fel y nodwyd uchod, nid oes raid i gydymffurfiaeth gyffredinol olygu cydymffurfiaeth gyflawn neu berffaith, y sefyllfa ddelfrydol, arferion llwyddiannus ac ati.

**Cydymffurfio'n Rhannol** – mae'n golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn gwneud ymdrechion diffuant i gydymffurfio gyda gofynion y *Safonau* neu'r elfennau unigol o'r Côd Moesegol neu rannau neu gategorïau pwysig ohonynt ond nad yw'n llwyddo i gyflawni rhai amcanion pwysig. Fel arfer, bydd y rhain yn cynrychioli cyfleon sylweddol ar gyfer gwelliant o ran y modd y defnyddir y *Safonau* neu'r Côd Moesegol yn effeithiol ac/neu gyflawni eu hamcanion. Efallai y bydd rhai diffygion y tu draw i reolaeth y gwasanaeth a gallant arwain at wneud argymhellion i uwch reolwyr neu fwrdd y sefydliad.

**Ddim yn Cydymffurfio** – mae'n golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ymwybodol o amcanion y *Safonau* neu elfennau unigol Côd Moesegol neu rannau neu gategorïau pwysig ohono. Fel arfer, bydd y

diffygion hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a'i botensial i ychwanegu gwerth i'r sefydliad. Efallai hefyd y byddant yn cynrychioli cyfleon pwysig ar gyfer gwelliant gan gynnwys camau gan uwch reolwyr neu'r bwrdd.

Yn aml iawn, y gwerthusiad anoddaf yw penderfynu ar y gwahaniaeth rhwng cyffredinol a rhannol. Mater o farn ydyw gan gadw mewn cof y diffiniad uchod o gydymffurfiaeth gyffredinol. Dylid darllen y *Safonau* yn ofalus er mwyn penderfynu a oes cydymffurfiaeth sylfaenol â nhw. Fel arfer, nid yw'r ffaith fod cyfleon yn bodoli ar gyfer gwelliant, dewisiadau gwell neu arferion llwyddiannus eraill yn gostwng sgôr 'cydymffurfio'n gyffredinol'.

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| | Diffiniad o Archwilio Mewnol | |
| **Cyfeirnod** | **Côd Moesegol** | |
| 1 | Cyfanrwydd | |
| 2 | Gwrthrychedd | |
| 3 | Cyfrinachedd | |
| 4 | Medrusrwydd | |
| **Cyfeirnod** | **Priodoli Safonau** | |

# Asesiad Ansawdd Allanol

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| 1000 | Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb | |
| 1010 | Adnabod Canllawiau Mandadol yn y Siarter Archwilio Mewnol | |
| 1100 | Annibyniaeth a Gwrthrychedd | |
| 1110 | Annibyniaeth Sefydliadol | |
| 1111 | Rhyngweithio Uniongyrchol gyda'r Bwrdd | |
| 1112 | Rolau'r Prif Swyddog Archwilio ar wahân i Archwilio Mewnol | |
| 1120 | Gwrthrychedd Unigol | |
| 1130 | Yr hyn all effeithio'n andwyol ar Annibyniaeth neu Wrthrychedd | |
| 1200 | Medrusrwydd a Gofal Proffesiynol Dyledus (Y cyfan o *Safonau* 1210-1230) | |
| 1210 | Medrusrwydd | |
| 1220 | Gofal Proffesiynol Dyledus | |
| 1230 | Datblygiad Proffesiynol Parhaus | |

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| 1300 | Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant (Y cyfan o *Safonau* 1310-1320) | |
| 1310 | Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant | |
| 1311 | Asesiadau Mewnol | |
| 1312 | Asesiadau Allanol | |
| 1320 | Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant | |
| 1321 | Defnyddio Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Proffesiynol Archwilio Mewnol | |
| 1322 | Datgan Diffyg Cydymffurfiaeth | |
| **Cyfeirnod** | **Safonau Perfformiad** | |
| 2000 | Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol (Y cyfan o *Safonau* 2010 – 2060) | |
| 2010 | Cynllunio | |
| 2020 | Cyfathrebu a Chymeradwyaeth | |
| 2030 | Rheoli Adnoddau | |

# Asesiad Ansawdd Allanol

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| 2040 | Polisïau a Gweithdrefnau | |
| 2050 | Cydlyniant a Gwydnwch | |
| 2060 | Adrodd i Uwch Reolwyr a'r Bwrdd | |
| 2070 | Darparwr Gwasanaeth Allanol a Chyfrifoldeb Sefydliadol am Archwilio Mewnol | |
| 2100 | Natur y Gwaith (Y cyfan o *Safonau* 2110 – 2130) | |
| 2110 | Llywodraethiant | |
| 2120 | Rheoli Risg | |
| 2130 | Rheolaeth | |
| 2200 | Cynllunio Ymgysylltiad (Y cyfan o *Safonau* 2201-2240) | |
| 2201 | Ystyriaethau Cynllunio | |
| 2210 | Amcanion Ymgysylltiad | |
| 2220 | Sgôp Ymgysylltu | |

# Asesiad Ansawdd Allanol

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| 2230 | Neilltuo Adnoddau ar gyfer Ymgysylltiad | |
| 2240 | Rhaglen Waith Ymgysylltiad | |
| 2300 | Cyflawni'r Ymgysylltiad (Y cyfan o *Safonau* 2300-2340) | |
| 2310 | Nodi gwybodaeth | |
| 2320 | Dadansoddiad a Gwerthusiad | |
| 2330 | Dogfennu Gwybodaeth | |
| 2340 | Goruchwylio Ymgysylltiad | |
| 2400 | Cyfathrebu Canlyniadau (Y cyfan o *Safonau* 2410-2440) | |
| 2410 | Meini Prawf ar gyfer Cyfathrebu | |
| 2420 | Ansawdd y Cyfathrebu | |
| 2421 | Camgymeriadau a Phethau a Adawyd Allan | |

# Asesiad Ansawdd Allanol

| | | Asesiad |
|---|---|---|
| 2430 | Defnyddio 'cyflawnwyd mewn cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer yr Arfer Broffesiynol o Archwilio Mewnol' | |
| 2431 | Datgeliad Ymgysylltu ynghylch Diffyg Cydymffurfiaeth | |
| 2440 | Rhannu Canlyniadau | |
| 2450 | Barn Gyffredinol | |
| 2500 | Monitro Cynnnydd | |
| 2600 | Penderfyniad ynghylch Uwch Reolwyr yn Derbyn Risgiau | |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliant | | |

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliant

| Rhif Cyf. | Cyf. PSIAS | Maes Gwelliant | Camau Arfaethedig | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Diffiniad 2010 | Er yn cydymffurfio gyda PSIAS, dylid ystyried a fyddai'n werth cynllunio ar gyfer cyfnod o dair blynedd ac a fyddai hynny'n effeithiol. A yw AM yn gallu canolbwyntio'n wirioneddol ar yr hyn a fydd yn bwysig i'r sefydliad ymhen tair blynedd? Mae cyflymder y newidiadau mewn llywodraeth leol yn awgrymu y dylid cynllunio ar gyfer blwyddyn ar y mwyaf a llai efallai. | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn gweithredu cynllun blwyddyn a fydd yn cael ei adolygu'r chwarterol. Bydd yn cael ei fabwysiadu dan y dull newydd o gynllunio archwilio gan ddefnyddio'r broses fapio newydd ar gyfer sicrwydd. | Pennaeth Archwilio a Risg | Wedi ei sefydlu ar gyfer 2018/19 |
| 2. | 1000<br>1010 | Er yn cydymffurfio'n gyffredinol gyda gofynion PSIAS, mae'r gwasanaeth eisoes wedi nodi newidiadau a fydd yn cael eu hymgorffori yn y Siarter AM ddiwygiedig ac mae angen datgan yn glir natur fandadol y PSIAS ac ymhelaethu ar y gwahaniaeth rhwng gwaith ymgynghorwyr a gwaith AM. | Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg yn adolygu ac yn diweddaru'r Siarter Archwilio Mewnol ac yn ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhelir ym mis Medi 2017. | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2017 |

| Rhif Cyf. | Cyf. PSIAS | Maes Gwelliant | Camau Arfaethedig | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 3. | 1100<br>2010<br>2050 | Er yn cydymffurfio gyda PSIAS, byddai'n ddefnyddiol cael fframwaith sicrwydd archwilio er mwyn sicrhau bod y gwaith AM yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod yr holl feysydd corfforaethol, gwasanaethau, rhaglenni, prosiectau, risgiau ac ati'n cael eu nodi a'u hasesu o safbwynt risg archwilio er mwyn siapio'r cynllun AM. Bydd o gymorth hefyd i sicrhau nad oes unrhyw fylchau o safbwynt sicrwydd a dim gor-sicrwydd mewn unrhyw feysydd. | Fel yr uchod, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg yn gweithredu fframwaith sicrwydd archwilio er mwyn sicrhau bod y gwaith archwilio mewnol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Wedi ei sefydlu ar gyfer 2018/19 |

| Rhif Cyf. | Cyf. PSIAS | Maes Gwelliant | Camau Arfaethedig | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. | 1112 | Er yn cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd gyda PSIAS, bydd angen i'r PSA newydd ddatgan i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wrthdrawiad diddordeb a diffyg cydymffurfiaeth gyda PSIAS 1130.A2 er mwyn parhau i gydymffurfio â'r gofynion o safbwynt annibyniaeth a gwrthrychedd y swyddogaeth archwilio. | Cafodd y PSIAS eu diwygio a daethant i rym ar 1 Ebrill 2017. Y newid mwyaf nodedig yw'r Safon 112 newydd – Rolau'r Prif Swyddog Archwilio ar wahân i Archwilio Mewnol. Am y tro cyntaf, mae'r safonau'n cydnabod y gall penaethiaid archwilio fod â rolau a chyfrifoldebau ar wahân i archwilio mewnol. Er bod y safon newydd a'r dehongliad ar gyfer y sector cyhoeddus yn cydnabod hyn, mae'r safon yn canolbwyntio ar fesurau gwarchod i gyfyngu ar unrhyw effeithiau andwyol i annibyniaeth a all ddigwydd. Mae'r dehongliad ar gyfer y sector preifat yn datgan bod rhaid i'r mesurau gwarchod gael eu cymeradwyo a'u hadolygu o bryd i'w gilydd gan y bwrdd (sef y pwyllgor archwilio fel arfer).<br><br>Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn briffio'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y mesurau gwarchod ac yn diweddaru'r siarter archwilio mewnol i adlewyrchu'r trefniadau newydd. | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2017 |

# Asesiad Ansawdd Allanol

| Rhif Cyf. | Cyf. PSIAS | Maes Gwelliant | Camau Arfaethedig | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | 2040 | Er ei bod yn cydymffurfio gyda PSIAS, mae'r llawlyfr archwilio'n ddogfen hirfaith ac efallai y bydd angen ei diwygio unwaith y mae'r Prif Swyddog Archwilio newydd yn ei swydd. Dylid ystyried bryd hynny y posibilrwydd o ddatblygu dogfen ganllawiau rhyngweithiol a fydd yn haws cyfeirio ati a'i diweddaru pan fydd angen gwneud newidiadau. | Cynhelir adolygiad cynhwysfawr o'r dulliau a'r arferion archwilio mewnol yn 2017/18. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu cynnwys a diwyg y Llawlyfr Archwilio Mewnol yn dilyn gweithredu'r dull newydd yn llwyddiannus ond ni fydd yn cael cymaint o flaenoriaeth. | Pennaeth Archwilio a Risg | Medi 2018 |
| 6. | 2201 | Er bod y Daflen Cynllunio Aseiniadau'n gynhwysfawr, nid yw'n cynnwys yr adnoddau (nifer y dyddiau) a neilltuwyd ar gyfer y prosiect. Dangosir hyn yn y Cynllun Archwilio ond mae'n bosib y bydd hyn yn newid ar adeg sgopio'r prosiect, felly mae angen ei gofnodi ar y Daflen Cynllunio Aseiniadau. | Fel rhan o'r adolygiad o'r dull a'r arferion archwilio mewnol, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu'r holl ddogfennau safonol ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda PSIAS. Yn y cyfamser, mae'r adnoddau a ddyrannwyd yn cael eu cynnwys yn y Daflen ar gyfer Cynllunio Aseiniadau. | Pennaeth Archwilio a Risg | April 2017 |

| Rhif Cyf. | Cyf. PSIAS | Maes Gwelliant | Camau Arfaethedig | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. | 2421 | Dylai'r Llawlyfr AM gynnwys canllawiau rhag ofn y bydd adroddiad terfynol AM yn cynnwys camgymeriad sylweddol sydd angen ei gywiro neu rywbeth o bwys sydd wedi ei adael allan. | Er bod proses sicrwydd ansawdd ar gael i leihau i'r eithaf ar y risg o gamgymeriad neu fod rhywbeth yn cael ei adael allan, os yw adroddiad terfynol yn cynnwys camgymeriad neu rywbeth sylweddol sydd wedi ei adael allan, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn anfon gwybodaeth wedi ei chywiro at yr holl bartïon a dderbyniodd y cyfathrebiad gwreiddiol. Manylir ar hyn yn y Llawlyfr Archwilio diweddaredig pan gaiff ei adolygu a bydd yn cael ei ddwyn at sylw'r staff yn y cyfarfod tîm nesaf. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mehefin 2017<br>Medi 2018 |